

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (Ile
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Practis
Deintyddol Church Street**

27 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Church Street yn 3 Church Street, Merthyr Tudful, CF47 0BA yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 27 Ionawr 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle

¹Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym o 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith o safonau yn nodi'r gofynion o ran yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Church Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn agos at ganol tref Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd y practis yn cyflogi tîm o naw o staff ar adeg ein harolygiad. Roedd hyn yn cynnwys y prif ddeintydd ac un ymarferwr deintyddol galwedigaethol, pedair nyrs ddeintyddol (un ohonynt dan hyfforddiant), rheolwr practis a dau dderbynydd penodol.

Mae Practis Deintyddol Church Street yn cynnig triniaeth i gleifion preifat yn bennaf. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Fodd bynnag, cadwyd contract NHS bach ar gyfer cleifion GIG presennol (plant ac oedolion); mae'r deintydd sylfaen yn darparu triniaeth GIG bedwar diwrnod yr wythnos. Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol yn y practis.

Mae'r prif ddeintydd hefyd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol. O ganlyniad, mae'r practis yn cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol).

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Church Street yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Dangosodd holiaduron AGIC a gwblhawyd bod cleifion yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd eu bod yn cael eu trin gan staff cyfeillgar a chrosawgar ac yn derbyn gwybodaeth ddigonol ac eglur am eu gofal a'u triniaeth. Roedd angen gwella agweddau penodol ar wefan y practis a'r trefniadau sydd ar waith i hysbysu cleifion am y prosesau cwynion deintyddiaeth GIG a phreifat.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y practis yn cael ei redeg gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da i gleifion. Fodd bynnag, nodwyd pedwar gwelliant o ran agweddau penodol ar y gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau bod y practis yn bodloni gofynion deddfwriaeth, safonau a chanllawiau perthnasol cyfredol.

Sefydlwyd y ddeintyddfa ac fe'i rhedir yn dda gan y prif ddeintydd, rheolwr practis rhan-amser a thîm staff penodol. Mae gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion. Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

Mae safle'r practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dangosodd holiaduron AGIC a gwblhawyd bod cleifion yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd eu bod yn cael eu trin gan staff cyfeillgar a chroesawgar ac yn derbyn gwybodaeth ddigonol ac eglur am eu gofal a'u triniaeth. Roedd angen gwella agweddau penodol ar wefan y practis a'r trefniadau sydd ar waith i hysbysu cleifion am y prosesau cwynion deintyddiaeth GIG a phreifat.

Cwblhawyd dau ar bymtheg o holiaduron cleifion AGIC yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd hwn. Roedd pob holiadur yn dangos bod y tîm deintyddol yn rhoi croeso iddynt bob amser pan fyddant yn ymweld â'r ddeintyddfa. Hefyd, dywedodd y cleifion eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol.

Arweiniodd sgwrs gydag un claf ar ddiwrnod yr arolygiad at sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth iddo eu derbyn.

O'r 17 o gleifion a gwblhaodd ein holiadur, dywedodd dau nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau'. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos ar ddrws allanol adeilad y practis. Gwrandawyd ar y neges peiriant ateb yn ystod yr awr ginio hefyd pan roedd y practis ar gau a chanfuwyd gennym fod gwybodaeth eglur am sut i gael mynediad at ofal 'y tu allan i oriau'.

Gwelsom fod gan y practis wefan sy'n rhoi gwybodaeth i gleifion am y tîm deintyddol a gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau rhai agweddau ar y wefan ac nid oedd y ddolen i Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithio. Gallai hyn olygu na all rhai cleifion gael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt os mai defnydd o'r rhyngwyd yw'r dewis maent yn ei ffafrio i ddod o hyd i wybodaeth am y practis.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau y darperir gwybodaeth lawn a chywir am y practis sydd ei hangen i wneud penderfyniadau cytbwys i gleifion bob amser.

Mae'r practis yn gweithredu system apwyntiadau hyblyg, a chynigir triniaeth a drefnwyd a brys. Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod claf wedi dod i gael triniaeth ddiwrnod cyn yr amser a drefnwyd. Ymatebodd staff y dderbynfa i'r claf

dan sylw mewn ffordd gynorthwyol a thrugarog. Hefyd, llwyddwyd i drin y claf wrth i'r tîm deintyddol gydnabod y byddai'r unigolyn yn cael trafferth pe bai gofyn iddo ddychwelyd y diwrnod canlynol. Datgelodd trafodaeth gyda rheolwr y practis hefyd bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i weld a thrin cleifion brys ar y diwrnod iddynt gysylltu â'r practis. Roedd hyn yn berthnasol i blant yn arbennig. Mae'r practis ar agor tan 6pm ddwy noswaith yr wythnos i gynorthwyo cleifion i gael mynediad at wasanaethau deintyddol ar adeg sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw.

Dyweddodd dau ar bymtheg o gleifion eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis hwn ac nid oedd ganddynt unrhyw gwynion. Fodd bynnag, nid oedd chwe chlaf yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai'r angen yn codi. Dywedodd un o'r cleifion hynny y byddai'n gwybod sut i ddarganfod hyn ac roedd yn teimlo y gallai ymholi yn y practis. Roedd gweithdrefn gwynion wedi'i harddangos yn nerbynfa'r llawr daear. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cydymffurfio â chanllawiau 'Gweithio i Wella' y GIG. Datgelodd trafodaeth gyda rheolwr y practis ac ystyriaeth o'r cwynion ffurfiol blaenorol (ni wnaed unrhyw gwynion i'r practis ers 2010) bod y tîm deintyddol yn tueddu i roi sylw i unrhyw bryderon a godir gan gleifion yn brydlon ac wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, cynghorwyd y practis i wneud gwybodaeth a gŵynion yn fwy hygyrch ac eglur i gleifion mewn ystafelloedd aros, ar ei wefan ac mewn taflenni gwybodaeth i gleifion.

Hefyd, dylid darparu gwybodaeth am gwynion i gleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 sy'n cynnwys manylion cyswllt i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn yr un modd, dylid hysbysu cleifion GIG am eu hawl i ddyrchafu cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Nid oedd y manylion hyn wedi'u cynnwys yng ngwybodaeth u practis am gŵynion na'i bolisi cyfredol.

Argymhelliad

Mae angen i weithdrefn gwynion y practis gyd-fynd â threfniadau 'Gweithio i Wella' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (diwygio) 2011.

Canfuwyd gennym nad oedd gan y practis broses ar waith o ofyn am safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir, yn rheolaidd. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod sawl prosiect wedi cael ei gwblhau gan ymarferwyr deintyddol galwedigaethol a oedd wedi gweithio yn y practis yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd prosiectau o'r fath wedi cynnig canolbwynt ar safbwyntiau cleifion.

Rhoddodd nifer o gleifion a gwblhaodd holiaduron ganiatâd i ni gynnwys eu sylwadau ysgrifenedig ychwanegol yn yr adroddiad hwn. Dangosir sampl o sylwadau o'r fath isod:

'Byddwn yn argymhell y practis hwn. Rwyf wedi bod gyda (enw'r deintydd) ers blynyddoedd lawer ac ni fyddwn i fyth yn mynd i unrhyw le arall. Mae'r gwasanaeth o'r radd flaenaf'.

'Rwy'n credu bod fy neintydd yn llawn gwybodaeth pan rwy'n derbyn triniaeth. Caiff pob cam ei esbonio'

'Mae staff y dderbynfa'n barod iawn eu cymwynas'.

'Practis deintyddol rhagorol'.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y practis yn cael ei redeg gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da i gleifion. Fodd bynnag, nodwyd pedwar gwelliant o ran agweddau penodol ar y gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau bod y practis yn bodloni gofynion deddfwriaeth, safonau a chanllawiau perthnasol cyfredol.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf ar gyfer y ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y cofnodion o safon uchel gan ganolbwyntio ar lunio cynlluniau triniaeth, triniaeth cleifion a hybu iechyd deintyddol.

Gwnaethpwyd rhai awgrymiadau gennym o ran gwella dogfennau. Er enghraifft, roedd archwiliadau pelydr x a gynhaliwyd wedi cael eu cyfiawnhau a graddiwyd ansawdd y pelydr X mewn llyfr log, ond ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o gyfiawnhad yng nghofnodion electronig cleifion fel sy'n ofynnol dan Reoliadau RhYI(DM) 2000².

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau y cofnodir y rheswm (cyfiawnhad) am gynnal archwiliadau pelydr x yng nghofnodion cleifion yn unol â'r Rheoliadau presennol.

O'r 10 o gofnodion cleifion a welwyd yn yr arolygiad hwn, canfuwyd gennym nad oedd pedwar hanes meddygol wedi eu llofnodi gan y deintydd fel sy'n ofynnol. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd cofnodion tri chlaf yn cynnwys hanes meddygol ysgrifenedig blynyddol wedi'i ddiweddarau, fel yr argymhellir.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Canfuwyd gennym fod y trefniadau o ran defnyddio offer pelydr x yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd diweddariadau hyfforddiant ar gyfer staff priodol wedi cael eu cyflawni ers 2008. Dylid cyflawni hyfforddiant o'r fath bob pum mlynedd yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

² Mae Adran 6 RhYI(DM) 2000 yn nodi, cyn cyflawni radiograff, bod yn rhaid cyfiawnhau'r datguddiad mae'n rhaid i'r budd fod yn fwy na niwed y datguddiad'. Yn benodol, dylai'r archwiliad pelydr x ddarparu gwybodaeth newydd fel rheol.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i staff priodol fynychu hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio yn unol â Rheoliadau RhYI(DM) 2000.

Gwelsom dystiolaeth o weithgarwch archwilio diweddar yn gysylltiedig ag ansawdd archwiliadau pelydr x cleifion. Hefyd, gwelwyd bod ansawdd y delweddau pelydr x yn dda yn y 10 o gofnodion cleifion a welwyd yn yr arolygiad hwn.

Edrychwyd ar y dystysgrif a oedd wedi'i harddangos o ran y defnydd o offer pelydr x a gwelsom nad oedd unrhyw oruchwylydd diogelwch ymbelydredd wedi'i enwi fel sy'n ofynnol at ddibenion diogelwch. Trafodwyd hyn gyda rheolwr y practis a gysylltodd â'r cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw offer o'r fath ar ddiwrnod ein harolygiad, fel ffordd o fynd i'r afael â'r mater.

Cedwir cofnodion ar gronfa ddata gyfrifiadurol yn y practis. Mae'r unig wybodaeth a gynhyrchir ar bapur yn ymwneud â hanesion meddygol newydd neu wedi'u diweddarau. Fe'm sicrhawyd hefyd bod gan bob aelod o staff eu cyfrineiriau cyfrifiadur unigryw eu hunain a bod yr holl wybodaeth yn cael ei hategu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar y system.

Mae gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau priodol os bydd argyfwng (ymgwmpo) gyda chlaf yn y practis. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal o ran dyddiadau dod i ben cyffuriau a gedwir yn y practis trwy ddefnyddio log ysgrifenedig. Canfuwyd gennym hefyd bod y ffordd o storio cyffuriau'n briodol ac yn ddiogel.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion tri aelod o staff a chanfuwyd gennym fod staff wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd a diweddar ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, gan gynnwys sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Mae gan y practis unigolyn penodedig sy'n gyfrifol am gymorth cyntaf hefyd ac mae'n gweithio pedwar diwrnod yr wythnos. Byddai'r prif ddeintydd yn darparu cymorth cyntaf ar yr un diwrnod sy'n weddill (dydd Gwener).

Archwiliwyd y gweithdrefnau sydd ar waith o ran glanhau a sterileiddio offerynnau (a adnabyddir hefyd fel dadhalogi). Datgelodd hyn bod rhaglen cynnal a chadw feunyddiol ar waith yn y practis o ran yr offer a ddefnyddir i lanhau offerynnau deintyddol a ddefnyddiwyd. Mae'r rhaglen cynnal a chadw'n cynnwys archwiliadau offer ar ddechrau a diwedd y dydd. Mae'r tîm deintyddol hefyd yn defnyddio stribedi prawf bob tri mis er mwyn sicrhau bod y baddon uwchsonig yn dal i fod yn effeithiol. Gwelsom fod canlyniadau'r profion hynny

wedi'u cofnodi mewn llyfr log. Fodd bynnag, dim ond yn electronig yr oedd gwybodaeth brawf yn ymwneud â'r defnydd o'r ffyrnau aerglos, ac anaml y caiff canlyniadau'r rhain eu lawrlwytho. Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd o gollu agweddau ar y profion a'r angen am gamau adfer.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i adolygu a diweddarau data profion ffyrnau aerglos yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y broses o sterileiddio'n dal i fod yn effeithiol a boddhaol.

Roedd yn ymddangos bod yr holl offer mewn cyflwr da ac yn destun contractau cynnal a chadw. Gallem gadarnhau hefyd y cynhelir profion teclynnau symudol yn ôl y gofyn hefyd.

Gwelsom fod digon o le storio ar gyfer offerynnau deintyddol a chyfleusterau golchi dwylo penodol ym mhob deintyddfa. Fodd bynnag, roedd y gallu i wahanu offerynnau budr a glân wedi'i gyfyngu gan fod y ddwy fwrn aerglos wedi'u lleoli ym mhob un o'r deintyddfeydd. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r tîm deintyddol ddefnyddio powlen yn ogystal â'r un sinc pwrpasol, i lanhau ac archwilio offerynnau ar ôl eu defnyddio. Datgelodd trafodaeth gyda'r prif ddeintydd a dwy nyrs ddeintyddol yr ymdrechion a wneir i sicrhau bod offerynnau glân a budr yn cael eu gwahanu i ofalu bod y risg o groeshalogi cyn lleied â phosibl. Cadarnhaodd y tîm hefyd nad yw offerynnau a ddefnyddiwyd fyth yn cael eu cludo rhwng dwy ddeintyddfa.

Gwelsom fod offerynnau a ddefnyddiwyd yn cael eu glanhau, eu sterileiddio a'u rhoi mewn bagiau wedi'u seilio mor gyflym â phosibl. Fe'n hysbyswyd hefyd bod gan y practis gynlluniau i droi'r ystafell aros i gleifion ar lawr cyntaf y practis yn ystafell groeshalogi benodol yn y dyfodol agos iawn. Roedd hyn fel ffordd o gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05³. Gwnaed y cynlluniau adeiladu ar gael i ni yn ystod yr arolygiad hwn.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnig canllawiau ar ddadhalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol i weithwyr proffesiynol.

Cawsom sgwrs gyda'r prif ddeintydd am yr angen am archwiliadau rheolaidd o ofynion rheoli heintiau ac fe'n hysbyswyd nad oedd archwiliadau o'r fath wedi cael eu cwblhau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i gwblhau archwiliadau rheolaidd o'i arferion atal a rheoli heintiau gydag adolygiad priodol a ddylai ddangos cynnydd yn erbyn cynllun gwella ysgrifenedig.

Ystyriwyd cynnwyd cofnodion cynnal a chadw gennym a alluogodd i ni gadarnhau bod gan y ddeintyddfa gontract parhaus ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin a'i waredu'n briodol. Gwelsom hefyd bod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n gywir mewn ystafell wedi'i chloi.

Gwelsom fod gan staff fynediad at offer diogelu addas i'w ddefnyddio wrth wneud eu gwaith. Darparwyd sbectol diogelwch i gleifion hefyd.

Ystyriwyd gennym yn ystod yr ymweliad arolygu a oedd y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru - fel yr amlinellir yn y ddogfen o'r enw Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well⁴. Cadarnhaodd ein harsylwadau bod y cyfleusterau'n dda; roedd y ddwy ddeintyddfa'n olau gyda digon o le a stoc.

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym>.

Mae'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru wedi eu seilio ar ganllawiau ategol. Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1 – 26) ar gael yn y ddogfen hon.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Sefydlwyd y ddeintyddfa ac fe'i rhedir yn dda gan y prif ddeintydd, rheolwr practis rhan-amser a thîm staff penodol. Mae gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith yn y practis i sicrhau diogelwch cleifion. Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

Mae Practis Deintyddol Church Street yn ddeintyddfa annibynnol sefydledig. Y prif ddeintydd sydd â chyfrifoldeb rheoli cyffredinol am redeg y practis o ddydd i ddydd; mae ei wraig yn cyflawni swyddogaeth rheolwr y practis ar sail ran-amser.

Mae'r prif ddeintydd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol hefyd. O ganlyniad, mae'r practis yn cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol).

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y practis yn cael ei redeg yn dda gan fod gweithrediad beunyddiol y practis yn seiliedig ar amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a gedwir yn y practis a thrwy drafodaethau gydag aelodau o'r tîm deintyddol.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu; roedd rhai aelodau wedi gweithio yn y practis ers blynnyddoedd lawer. Fe'n hysbyswyd hefyd nad yw'r practis yn defnyddio staff deintyddol asiantaeth a bod lefelau salwch/absenoldeb staff yn isel.

Fe'n hysbyswyd gan staff gweinyddol a nyrsio deintyddol i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd eu bod nhw, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd (bob 4-8 wythnos) lle cânt gyfleoedd i godi unrhyw faterion sy'n peri pryder am wasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion. Defnyddir cyfarfodydd o'r fath i gyfleu gwybodaeth newydd/perthnasol i'r tîm deintyddol hefyd. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ddeintyddfa sy'n amlygu'r pynciau/materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm yn ystod y tri mis diwethaf.

Dangoswyd o archwilio tair ffeil staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant perthnasol yn ystod 2014 a oedd yn cynnwys sesiynau ar amddiffyn oedolion a phlant. O ganlyniad, roedd manylion cyswllt timau diogelu lleol ar gael yn barod yn y ddeintyddfa. Canfuwyd gennym hefyd bod y practis yn rhoi pwyslais mawr ar hyfforddiant a datblygiad staff yn gyffredinol; roedd ffeiliau datblygiad

proffesiynol parhaus yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant staff yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn amlwg bod hyn wedi arwain at sicrhau bod staff yn hyderus a chymwys wrth ddarparu gofal a chymorth i gleifion.

Canfuwyd gennym fod gan y staff gysylltiadau cyflogaeth ar waith a oedd wedi'u llofnodi a'u dyddio ac roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau y darparwyd ffordd i unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol ymgysylltu â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau i gleifion.

Dangosodd trafodaeth gyda rheolwr y practis bod aelodau staff yn cael eu hannog i godi pryderon am y ddarpariaeth o wasanaethau yn y practis. Canfuwyd fod gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith.

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod asesiadau iechyd a diogelwch staff wedi cael eu cwblhau (e.e. y rhai'n ymwneud â staff yn defnyddio offer cyfrifiadurol).

Canfuwyd o archwilio cofnodion staff a sgysiau gyda'r deintyddion bod gan y ddeintyddfa dystiolaeth gyfredol o frechiadau Hepatitis B i bob aelod perthnasol o staff ac eithrio un aelod o staff. Datgelodd trafodaeth gyda'r prif ddeintydd y byddai'n cael gafael ar y manylion a oedd yn weddill cyn gynted â phosibl. Cadarnhaodd sgysiau gyda rheolwr y practis hefyd bod trefniadau addas ar waith rhwng y practis a Bwrdd Iechyd Cwm Taf fel y gellid cael cymorth a chyngor gan yr adran iechyd galwedigaethol.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn un o'r ddwy ystafell aros i gleifion yn ymwneud â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis. Roedd y wybodaeth yn gywir yn y ddau achos.

Canfuwyd yn gyffredinol o archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis bod systemau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n brydlon ac yn unol â gofynion gorfodol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o ymweliad/tystysgrif diogelwch nwy gyfredol fel sy'n ofynnol; cynhaliwyd yr ymweliad blaenorol yn ystod 2013. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a gytunodd i roi sylw i'r mater hwn.

Argymhelliad

Hysbysir y practis am yr angen i ddarparu tystiolaeth o dystysgrif diogelwch nwy gyfredol i AGIC yng nghyswllt y safle deintyddol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Mae safle'r practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth.

Mae Practis Deintyddol Church Street wedi'i leoli mewn tŷ mawr wedi'i drosi yn 3 Church Street, ger canol tref Merthyr Tudful. Sefydlwyd y practis ym 1995 ac mae wedi gweithredu o'r lleoliad presennol ers 2002. Mae rhai lleoedd parcio ar gael mewn strydoedd cyfagos ac mae parcio wedi'i gyfyngu i un awr. Ceir maes parcio talu ac arddangos nid nepell o'r practis hefyd.

Ni all cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i'r adeilad oherwydd cyfres o risiau. Gwelsom fod y prif ddeintydd wedi archwilio'r posibilrwydd o addasu blaen y safle yn y blynyddoedd diwethaf i alluogi cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r practis; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi bod yn bosibl. Nid oes mynedfa gefn i'r practis. Gall cleifion sydd ag anawsterau eraill yn symud gael mynediad at y practis o'r fynedfa flaen gan ddefnyddio rheilen law sydd wedi'i gosod. Ceir rheiliau llaw mewn gwahanol fannau y tu mewn i'r practis hefyd. Hefyd, mae un o ddwy ystafell triniaeth ddeintyddol cleifion/deintyddfeydd wedi'i lleoli ar y llawr daear gan gydnabod na all rhai cleifion ddefnyddio grisiau.

Ceir derbynfa ar lawr daear y practis a dwy ystafell aros wedi'u trefnu ar draws dau lawr. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol i nifer y deintyddfeydd.

Cynigir toiled i gleifion a staff ar y llawr daear a cheir arwyddion eglur ar ei gyfer. Roedd y toiled yn lân, yn hylan ac roedd rheilen law ynddo.

Cadarnhaodd taith o gwmpas y safle bod larwm ddiogelwch wedi'i gosod a bod y ddeintyddfa wedi'i chynnal a'i chadw'n briodol y tu mewn a'r tu allan. Canfuwyd fod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a oedd wedi'i harddangos yn ddilys. Dim ond un allanfa dân sydd yn y safle, wrth y fynedfa flaen. Datgelodd sgwrs gyda rheolwr y practis bod y sefyllfa wedi bod yn destun asesiad risg llawn. Roedd diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio yn **2014**.

Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn ffres ac yn daclus. Canfuwyd gennym hefyd bod y practis wedi'i wresogi a'i awyru'n briodol a bod goleuadau priodol yno.

Roedd enwau'r perchennog/prif ddeintydd a'r deintydd dan hyfforddiant wedi'u harddangos yn eglur ar flaen yr adeilad. Mae enwau a chymwysterau'r tîm deintyddol ar gael yn barod i'r cleifion hefyd, ar ffurf cyflenwad o daflenni ar ddesg y dderbynfa.

Roedd amrywiaeth o bosteri wedi'u harddangos yn ystafell aros y llawr daear.
Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am yr hyn y dylent ei ddisgwyl
(fel y nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol) a chanllaw ar ffioedd triniaeth.

Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn ystafell aros y llawr cyntaf
yng nghyswllt y ddarpariaeth o ddeintyddiaeth breifat.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad y Claf, Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru a Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Church Street yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.